

Rhif: WG35830



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



# Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

### Parchu eraill

Ysbrydoli hawliau, parch a chydaddoldeb

Dyddiad cyhoeddi: 14 Tachwedd 2018

Camau gofynnol: Ymatebion erbyn 15 Chwefror 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

**OGI** © Crown copyright

## Sut i ymateb

Dylai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gael eu hanfon mewn e-bost/drwy'r post i'r cyfeiriad isod erbyn **15/02/2019** fan bellaf.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.llyw.cymru/ymgyngoriadau](http://www.llyw.cymru/ymgyngoriadau) <<http://www.llyw.cymru/ymgyngoriadau>>

## Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Cefnogi Cyflawniad a Diogelu

Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: [CCD.SAS@gov.wales](mailto:CCD.SAS@gov.wales)



@WG\_Education



Facebook/EducationWales

# **Gofalu am wybodaeth amdanoch chi.**

## **Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)**

Llywodraeth Cymru fydd yn rheoli unrhyw wybodaeth a roddwch inni wrth ymwneud â'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'u pwerau i benderfynu sut i gymryd eich gwybodaeth a'i defnyddio i wneud eu gwaith.

Bydd staff Llywodraeth Cymru yn gweld sut rydych wedi ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad. Os bydd Llywodraeth Cymru yn edrych yn fanylach ar yr ymgynghoriad, efallai y bydd yn gofyn i sefydliadau eraill ddefnyddio'r wybodaeth, ond os gwnaiff Llywodraeth Cymru hyn, byddwn yn gwneud yn siŵr fod y sefydliadau hyn yn cadw'ch gwybodaeth yn ddiogel.

I ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu adroddiad yn dangos rhai o'r sylwadau a wnaeth pobl.

Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich enw neu'ch cyfeiriad, dylech nodi hynny'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb atom. Byddwn yn gwneud yn siŵr wedyn cyn cyhoeddi nad yw'ch manylion yn cael eu cynnwys.

Dylech wybod hefyd fod modd i bobl ofyn i ni am wybodaeth (y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth).

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol.

Bydd unrhyw ddata o'ch eiddo a ddelir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am gyfnod o dair blynedd neu lai.

### **Eich hawliau**

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data mae gennych hawl i'r canlynol:

- cael gwybod am y data personol a ddelir amdanoch a chael mynediad ato
- cael cywiro unrhyw wybodaeth anghywir yn y data hwnnw
- cael dweud (o dan rai amgylchiadau) nad ydych am inni ddefnyddio'r cyfan neu ran o'ch data personol
- cael eich data wedi'i ddileu (o dan rai amgylchiadau)
- cael eich data wedi'i symud (o dan rai amgylchiadau)
- gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

I gael manylion pellach am y wybodaeth a ddelir gan Lywodraeth Cymru a'r defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am ymarfer eich hawliau dan GDPR, cysylltwch â:

Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost: [Data.ProtectionOfficer@gov.wales](mailto:Data.ProtectionOfficer@gov.wales)

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd  
Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Adolygu canllawiau gwrth-fwlio

### Ychydig o hanes.

Ym mis Hydref 2011, fe ysgrifennon ni *Parchu eraill* i roi canllawiau gwrth-fwlio i ysgolion, dysgwyr a'u teuluoedd.

Roedd yn sôn am wahanol fathau o fwlio a sut mae delio â hynny mewn ysgolion a cholegau er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc.

Ers hynny rydym wedi gweithio gyda llawer o grwpiau gwahanol i gael gwybod beth maen nhw'n ei feddwl o'r canllawiau.

Dywedodd y grwpiau hyn wrthym fod angen newid rhywfaint ar y canllawiau ac y gellid eu gwella drwy:

- eu gwneud yn hawdd eu deall a
- dangos y newidiadau sydd wedi digwydd yng Nghymru ers y ddogfen ganllawiau gyntaf.

Ond rydym am wneud yn siŵr ein bod yn mynd ati yn y ffordd iawn drwy holi;

- Plant a phobl ifanc
- Rhieni/Gofalwyr
- Athrawon, cynorthwywyr dysgu a staff ysgol arall fel cynorthwywyr cinio a gyrwyr bysiau ysgol
- Pobl sy'n gweithio i'r llywodraeth (gweision cyhoeddus), pobl sy'n gweithio i elusennau a mudiadau gwirfoddol (trydydd sector).

Drwy weithio gyda'r grwpiau hyn rydym yn gobeithio y gallwn wneud iddynt weithio'n well i bawb.

Os hoffech rannu'ch barn am y canllawiau hyn gallwch anfon e-bost neu bostio'ch barn i'r cyfeiriadau isod.

Bydd angen ichi wneud hyn erbyn 15/02/2019

# Canllawiau Gwrth-fwlio Drafft 2018

## Beth yw'r prif broblemau?

Rhwng 2016 a 2018 gwnaeth Llywodraeth Cymru lawer o waith gyda grwpiau o bob rhan o Gymru i weld pa newidiadau y dylid eu gwneud i'r canllawiau gwrth-fwlio i'w gwneud yn haws eu deall ac i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio.

Dyweddodd y grwpiau hyn wrthym fod angen inni:

- wneud yn siŵr fod pawb yn deall beth sy'n fwlio a beth sydd ddim yn fwlio
- rhoi cyngor i bobl fel ysgolion, cyrff llywodraethu, cynghorau, rhieni/gofalwyr a dysgwyr
- gwneud yn siŵr fod mwy o bobl yn gwybod am y canllawiau
- gwneud yn siŵr fod y canllawiau'n hawdd eu darllen a'i bod yn hawdd cael gwybodaeth ohonynt
- dangos yn glir sut maen nhw'n cyd-fynd â rheolau Cymru a'r Deyrnas Unedig a rheolau o bob rhan o'r byd
- bod yn gliriach am y wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu, sut rydyn ni'n gwirio pethau a sut rydyn ni'n dweud wrth bobl am y pethau rydyn ni wedi'u dysgu
- gwneud yn siŵr fod ffyrdd hawdd o ddefnyddio'r canllawiau a bod gennych bopeth sydd ei angen arnoch i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu defnyddio'n dda

## Ble rydyn ni nawr a beth mae angen inni ei wneud?

O'r holl adborth hwn mae Llywodraeth Cymru'n gwybod y dylid gwneud y rhestr hon o newidiadau:

- mae angen gwneud y canllawiau'n gliriach
- dylai fod yn glir beth yw swyddi pobl
- gwneud yn siŵr fod achosion bwlio a'r effaith a gaiff bwlio ar bobl yn cael eu datrys fel bod pawb yn teimlo'n saffach
- gwneud yn siŵr fod y bobl iawn yn cael y wybodaeth y tro cyntaf fel nad yw pobl yn gorfod ailadrodd pethau dro ar ôl tro
- bod pawb yn gwybod sut i sicrhau bod llai o fwlio'n digwydd a'u bod i gyd yn gweithio yn yr un ffordd
- ein bod i gyd yn gweithio yn yr un ffordd i sicrhau bod llai o fwlio'n digwydd ac i gadw pobl yn saff
- gweithio gydag arbenigwyr ym maes gwrth-fwlio a llesiant, i wneud yn siŵr fod y canllawiau'n gweithio'n dda.

## Beth yw'r newidiadau?

Y pethau yr hoffen ni eu gwella yn y canllawiau newydd yw:

- gwneud y canllawiau'n gliriach ac yn haws eu deall
- egluro'r prif bwyntiau hyn yn gliriach:
  - beth sy'n fwlio a beth sydd ddim yn fwlio
  - gwaith pwy yw delio â phroblemau bwlio y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol
  - beth i'w wneud os ydych yn poeni bod bwlio'n digwydd
  - sut mae bwlio'n cael ei riportio/ gofnodi/ fonitro
  - edrych ar ffyrdd o stopio bwlio
  - hawliau plant
  - edrych ar sut gall pawb gyda'i gilydd helpu i ddatrys bwlio;
  - pa reolau a deddfau sydd yna i stopio bwlio
- gwneud yn siŵr fod y canllawiau'n cwmpasu pob math o fwlio, er enghraifft edrych ar y bwlio ar rai grwpiau o bobl (er enghraifft, bwlio hiliol neu rywiaethol). A rhoi cymorth arbennig i helpu i stopio'r mathau hyn o fwlio
- gwneud yn siŵr fod pawb yn gweithio gyda'i gilydd i stopio bwlio a'i gwneud yn llai tebygol y bydd yna fwlio
- gwneud yn siŵr fod y canllawiau'n gweithio gyda phrosiectau a pholisïau eraill a'u bod yn cyd-fynd â'r hyn sydd eisoes ar waith i stopio bwlio
- dylai'r canllawiau ddangos sut yn ein barn ni y dylai pobl gael eu trin yn deg, a bod eu hiechyd a'u hapusrwydd yn cael eu hystyried
- byddwn yn cynnwys syniadau ac offerynnau i helpu i stopio bwlio ac i helpu ysgolion i lunio cynlluniau i ddelio â bwlio.

## Cynigion

Ar ôl gweithio gyda'r holl grwpiau gwahanol a chlywed eu syniadau, rydym wedi gwneud newidiadau i'r canllawiau gwrth-fwlio OND cyn i ni wneud unrhyw beth arall, rydym eisiau gofyn am eich barn chi ynglŷn â'r newidiadau?

Nid ydym yn ystyried newid unrhyw beth y mae rhaid inni ei wneud yn ôl y gyfraith ond rydym yn gobeithio y bydd y canllawiau'n gwneud unrhyw reolau a deddfau'n haws eu deall a'u rhoi ar waith.

## Ymgynghori

Y rheswm dros ymgynghori (gofyn am eich barn a'ch syniadau) yw i weld a yw'r canllawiau (drafft) yn gweithio ar gyfer y bobl y byddant yn effeithio arnynt.

O'r ymgynghoriad hwn byddwn yn gwranddo ar yr hyn y byddwch chi'n ei ddweud wrthym, a ph'un a oes angen gwneud newidiadau i'r canllawiau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi fersiwn derfynol o'r canllawiau cyn haf 2019